# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn
## Ysgol Y Manod
## Blaenau Ffestiniog,
## Gwynedd,
## LL41 3AF

**Rhif yr Ysgol: 6612205**

**Dyddiad yr Arolygiad: 02/02/09**
**gan**
**Terry Lynn Williams**
**79524**

**Dyddiad Cyhoeddi: 06/04/09**
**O dan rif contract Estyn: 1110208**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

113 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Mae'r athrawon a'r gweddill sy'n gweithio yn yr ysgol yn gosod patrwm ymddwyn gwych, yn enwedig felly o safbwynt cyd-weithio a gweithio fel tîm. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o faterion moesol, a deillia hyn o'r modd y meithrinir gwerthoedd sylfaenol megis parch, gonestrwydd a chwrteisi drwy'r holl ysgol gan y staff i gyd. Dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr.

114 Mae'r sesiynau amser cylch a'r trafodaethau mewn gwersi yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygu ymwybyddiaeth foesol y disgyblion ynghyd â'u datblygiad personol a chymdeithasol. Cynllunia'r staff yn ofalus iawn ar gyfer y gwasanaeth cyd-addoli dyddiol, sydd gan mwyaf yn Gristnogol eu natur. Caiff y rhain eu trefnu naill ai yn y dosbarth neu mewn cyfarfod ysgol gyfan. Mae'r cyfarfodydd asembli hyn yn cyflawni llawer mwy na bodloni'r gofynion statudol wrth iddynt herio disgyblion, cyfoethogi eu profiadau, hybu eu dealltwriaeth o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, datblygu eu gallu i fyfyrio, yn ogystal â darparu ar eu cyfer gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan yn weithredol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau ardderchog gyda'r eglwysi lleol, lle maent yn cymryd rhan yn gyson mewn gwasanaethau cyhoeddus i ddathlu Gŵyl Diolchgarwch a'r Nadolig. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o ymweliadau rheolaidd gan offeiriadon.